

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun, 7 Mehefin 2021 am 7:00pm trwy gyfrwng Zoom.

PRESENNOL: Cyngorwyr Anne Roberts, Stephen Beach, Menna Jones, Gavin Harris, Jim Bryan, Heather Williams, Christine Ellis a Mike van der Eijk.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

2. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Y Cyngorydd Menna Jones yw'r Cadeirydd. Enwebwyd hi gan y Cyngorydd Jim Bryan ac eiliwyd hynny gan y Cyngorydd Gavin Harris

3. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd dim datganiadau o fudd.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021 i'w cadarnhau'n gywir.

5. MATERION YN CODI

Statws Cyfeillgar i Goetsis Rhuthun – nid yw hyn wedi'i ddatrys. Byddir yn cysylltu â'r corff dyfarnu eto.

6. MEINCIAU CYHOEDDUS

Eglurodd y Dirprwy Glerc fod aelod o'r cyhoedd yr oedd ei dad wedi saernïo gwaith metel y fainc, sydd â thâp wedi'i roi o'i hamgylch ar hyn o bryd oherwydd ei chyflwr, wedi holi a oedd y fainc yn mynd i gael ei hadnewyddu neu'i newid. Os y cyntaf, a fyddai'n bosibl iddo gael y gwaith metel. Rhoddodd y Cyng. Harris wybod ei fod wedi cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch yr hawlenni sydd eu hangen i osod meinciau newydd (Stryd y Ffynnon a Heol Clwyd). Roedd wedi gofyn i G Teeson a oedd yn iawn rhannu'r gwaith gosod gyda golwg ar osod y ddwy fainc newydd yma a meinciau amnewid ar Gornel Heol y Parc, Lôn Parcwr 1 a Lôn Parcwr 2.

Awgrymwyd cynnig yr hen feinciau i'r Caffi Trwsio i'w hadnewyddu a'u defnyddio yn rhywle arall.

PENDERFYNWYD: cynnig y gwaith metel yn ôl i'r aelod o'r cyhoedd.

Bydd y Cyng. Harris yn cysylltu â Chaffi Trwsio Rhuthun i gynnig yr hen feinciau.

7. BINIAU SBWRIEL

Eglurodd y Cyngorydd Stephen Beach y ddarpariaeth wael o finiau ar hyd Heol y Parc o'r Orsaf Dân i'r Ganolfan Grefft. Cynigiodd y Cyng. Harris ddiweddarau map o leoliadau biniau, fel bod modd awgrymu lleoliad posibl. Pwysleisiwyd hefyd y byddai'n beth da gweithio gyda'r 3 ysgol gynradd a'r 2 ysgol uwchradd yn y dref i leihau problem sbwriel.

PENDERFYNWYD: y Cyng. Harris i ddiweddarau'r map. Y Cyngorwyr Menna Jones ac Anne Roberts i arwain ar y prosiect ysgolion.

8. CYNLLUN COVID CANOL Y DREF

Hysbyswyd yr aelodau fod y cynllun wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Cysylltwyd â'r cwmni sy'n darparu'r arwyddion i ddiweddarau'r ddau fys 'Cunning Green'. Bydd y Cyng. Harris yn cysylltu â Phrifyrdd Cyngor Sir Ddinbych a'r cwmni arwyddion ynglŷn â dyddiad i'w gosod.

PENDERFYNWYD: nodi'r diweddariad

9. PROSIECT PLANNU COED ARFAETHEDIG

Rhannodd y Maer ei chynllun ar gyfer prosiect blwyddyn o hyd o blannu coed trwy'r dref i gyd, gan gysylltu â grwpiau eraill a thirfeddianwyr, yn cynnwys 'Canopi Gwyrdd y Frenhines' sydd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar. Croesawyd y cynnig hwn gan yr aelodau i gyd. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys sefydlu cyllideb Plannu Coed o'r cronfeydd wrth gefn a bod rhai coed ag angen eu newid. Bydd y Maer yn llunio adroddiad i'w ystyried yn y cyngor llawn.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad.*

10. PLAC AR Y FAINC I MR PHILLIPS

Diweddarodd y Cyng. Menna Jones yr aelodau ar yr opsiynau ar gyfer y geiriad ar y plac i'w osod ar y fainc ar gornel Heol y Parc i gydnabod y gwaith rhyfeddol a wnaeth Mr Phillips dros y blynyddoedd.

PENDERFYNWYD: *Y geiriad ar y plac fydd:*

Diolch / Thank You

Andrew Phillips, MBE

1947 – 2021

11. CŴN ODDI AR DENNYN YN CAE DDOL

Gofynnodd y Cynghorydd Anne Roberts am yr eitem agenda yma mewn ymateb i gwynion y mae hi wedi'u derbyn ynghylch diogelwch pobl a bywyd gwyllt yn Cae Ddol, oherwydd nad oedd rhai perchnogion cŵn mewn rheolaeth lwyr ar eu cŵn. Cafwyd trafodaeth ynghylch pa un a oes lleoliad posibl yn Rhuthun y gellid ei neilltuo i fynd â chŵn am dro, ond ni ddaethpwyd i unrhyw gasgliad. Cytunodd yr aelodau fod llythyr i'w anfon oddi wrth Gyngor Tref Rhuthun (CTRh) i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) ynghylch y mater hwn, yn gofyn am gyfyngiadau o fewn parc Cae Ddol.

PENDERFYNWYD: *bod llythyr i'w anfon i Gyngor Sir Ddinbych i dynnu sylw at y sefyllfa ac i ofyn bod camau'n cael eu cymryd.*

12. BINIAU BAW CŴN

Eglurodd y Dirprwy Glerc fod CSDd wedi anfon e-bost ynghylch y bin coch ym maes parcio lard Crispin gan ei fod wedi torri. Hysbysodd CSDd eu bod yn gosod biniau deubwrpas yn lle eu biniau coch. Cytunwyd y byddai CTRh yn cyfnewid eu holl finiau coch am finiau deubwrpas hefyd. Cynigiodd y Cyng. Harris ddiweddarau'r map biniau a chysylltu â CSDd i archebu'r biniau newydd.

PENDERFYNWYD: *cael biniau deubwrpas yn lle biniau baw cŵn.*

13. BASGEDI CROG

Mae'r basgedi crog dwbl yn dal i fod ag angen eu hail-leoli. Roedd CSDd wedi rhoi pris o £200, ond ni fyddent yn gallu gosod y planhigion gan fod eu hasesiad risg yn dweud na all mwy nag un person fod mewn peiriant codi. Byddai JB Platform Hire yn gallu ail-leoli a gosod y planhigion ar yr un pryd. Nid yw'r plannwr ym maes parcio Lôn Dogfael wedi'i ail-leoli eto. Mae angen mynd ar ôl CSDd ynglŷn â hyn.

PENDERFYNWYD: *byddir yn cysylltu â Glyndwr Plants i ofyn iddynt ddanfôn gweddill y planhigion ar yr un diwrnod ag y caiff y basgedi eu hail-leoli.*

14. COEDEN NEWYDD Y LLWYBR CELF

Rhododd Dirprwy Glerc y Dref ddiweddariad ar y goeden newydd a bod system ddyfrio 'glaw gwreiddiau' newydd wedi'i gosod. Gwnaed cais bod rhywun i gysylltu â'r gosodwr ynghylch amllder a pha faint o ddŵr oedd ei angen a bod rhywun i gysylltu â Jeff Brimble i roi pris am hyn fel ychwanegiad at y contract dyfrio presennol.

PENDERFYNWYD: *cadarnhau'r trefniadau dyfrio.*

15. YMGYNGHORIAD RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL LLEOL SIR DDINBYCH

Ymunodd aelodau'r pwyllgor Cynllunio a Datblygu â'r pwyllgor Amwynderau ar gyfer yr eitem agenda yma. Roedd manylion yr ymgynghoriad presennol wedi'u rhannu gyda'r aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r Cynghorwyr yn e-bostio eu hadborth i'r Cyng. Williams, ac y bydd hi'n ei gyflenwi i CSDd.

PENDERFYNWYD: *Cynghorwyr i ddarparu eu hadborth ar y cynigion yn yr ymgynghoriad i'r Cyng. Williams.*

129. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 5 Gorffennaf 2021 am 7:00pm.*